



At:

Bob Fferyllfa Gymunedol yng Nghymru;

Bwrdd Iechyd Lleol:

Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Gofal Gymunedol ac Iechyd Meddwl;

Prif Fferyllwyr;

Cyfarwyddwyr Cyllid.

Copi at:

Brif Weithredwr, Fferylliaeth Gymunedol Cymru

Cyfarwyddwr, y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (Cymru)

Ein Cyf: AE/CPCF

16 Rhagfyr 2021

Drwy e-bost

Annwyl Gyfaill,

## **PRESGRIPSIWN NEWYDD: DYFODOL FFERYLLIAETH GYMUNEDOL YNG NGHYMRU**

Mae'r llythyr hwn yn rhoi manylion y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru, y GIG, a Fferylliaeth Gymunedol Cymru ar gyflwyno newidiadau pellgyrhaeddol i'r fframwaith contractiol ar gyfer fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru.

Mae'r newidiadau a ddisgrifir yn [Presgripsiwn Newydd: Dyfodol Fferylliaeth Gymunedol yng Nghymru](#) yn ffrwyth negodiadau helaeth a gynhaliwyd gyda'r nod o gyflawni dyhead Llywodraeth Cymru i sefydlu trefniadau newydd ar gyfer fferyllfeydd cymunedol. Bydd y trefniadau hyn yn helpu i sicrhau bod mwy o amrywiaeth yn y gwasanaethau clinigol penodol a darperir ym mhob fferyllfa yng Nghymru. Mae'n bwysig bod y newidiadau hynny'n golygu bod y sector fferylliaeth gymunedol yng Nghymru yn gynaliadwy yn y tymor hir, drwy ein bod yn manteisio'n llawn ar arbenigedd gweithwyr proffesiynol y sector i'n helpu i ymateb i'r heriau presennol a heriau'r dyfodol sy'n wynebu'r GIG.

Mae ein cytundeb presennol, sy'n weithredol am sawl flwyddyn, ac a fydd yn dod i ben ym mis Mawrth 2023, wedi darparu cyllid ychwanegol o £18.3m i'r sector dros gyfnod o dair blynedd, a bydd y cyllid blyneddol a ddarperir £8.6m yn uwch yn 2022/23 nag yr oedd ar ddechrau'r cytundeb. Mae hynny, ochr yn ochr â'r buddsoddiad ychwanegol o £9.1m yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, tuag at y costau ychwanegol y bu'n rhaid i fferyllfeydd eu talu o ganlyniad i'r pandemig COVID-19, wedi creu sail ar gyfer y newid mwy sylfaenol hwn.

Mae'r cytundeb newydd yn disgrifio cydweledigaeth ar gyfer sut y dylid trawsnewid fferylliaeth gymunedol mewn modd sy'n ei helpu i fodloni anghenion bobl Cymru. Mae'n ymrwymo i gynyddu gwasanaethau clinigol yn sylweddol, datblygu'r gweithlu, ac integreiddio fferylliaeth gymunedol ymhellach o fewn clystyrau gofal sylfaenol. Elfen bwysig o hyn yw bod y newidiadau'n cael eu hategu gan gyllid sydd wedi ei ddiwygio'n sylweddol i gymell a gwobrwyo fferyllfeydd sy'n gwneud rhagor o'r pethau y mae eu hangen ar y GIG, gan gynnwys:

- Ehangu rôl glinigol fferyllwyr cymunedol;
- Gweithlu sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gofal fferyllol rhagorol;
- Ymrwymiad i ansawdd, cydweithio ac integreiddio o fewn gofal sylfaenol;
- Gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae fferyllfeydd cymunedol yn ei wneud i'r GIG.

Mae *Presgripsiwn Newydd: Dyfodol Fferylliaeth Gymunedol yng Nghymru* yn disgrifio dull gweithredu cydweithredol, arloesol a blaengar ar gyfer darparu gofal fferyllol. Mae'n ein galluogi i gydweithio i sicrhau bod timau fferyllfeydd cymunedol yn gallu gwneud y cyfraniad mwyaf effeithiol posibl tuag at fodloni anghenion y GIG a phobl Cymru heddiw ac yn y dyfodol.

Yn gywir



**Andrew Evans FRPharmS**

Prif Swyddog Fferyllol/Chief Pharmaceutical Officer  
Llywodraeth Cymru/Welsh Government